**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**20 TACHWEDD 2018**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Paul Cunningham (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Andrew Holgate, Dave Hughes, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Colin Legg, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin, Ted Palmer, Mike Peers, Vicky Perfect, Michelle Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, David Cox, George Hardcastle, Tudor Jones, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Tony Sharps, Owen Thomas a Martin White.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid); Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Refeniw, Rheolwr Cyllid (Strategaeth a Systemau Cyfrifo), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd; Swyddog Gwasanaethau Democrataidd; a'r Parchedig David Poulton yn darllen y weddi.

## 56. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2018.

Cywirdeb
Yng nghofnod 50, gofynnodd y Cynghorydd Carol Ellis am gynnwys ei sylwadau hi ar y Rhybudd o Gynnig ynghylch Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, fel a ganlyn: "Nid oes gennym fandad gan drigolion Sir y Fflint i gefnogi galwadau am ail refferendwm." Gofynnodd y Cynghorydd Patrick Heesom hefyd am gynnwys ei sylwadau yntau ynglŷn â'r mater yn y cofnodion.

Ar dudalen 15, eitem 54, dywedodd y Cynghorydd Richard Jones ei fod wedi siarad o blaid gohirio, ond mai'r pwynt a wnaeth oedd fod Cynllun Glannau Dyfrdwy'n sail ar gyfer gwaith y Bwrdd Twf Economaidd Rhanbarthol, ac y dylai fod yno gynllun ehangach ar gyfer Sir y Fflint – ond nid oedd unrhyw ddogfen felly'n bodoli. Gofynnodd am ddiwygio'r cofnod i adlewyrchu hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y diwygiadau uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**57. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dywedodd y Prif Swyddog y cofnodid cysylltiad personol ar ran yr holl Aelodau ar gyfer eitem 10 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19. Esboniodd y câi'r Aelodau bleidleisio ar eu lwfansau gan fod y Cod Ymddygiad yn dweud mai cysylltiad personol oedd ganddynt ac nid cysylltiad sy'n rhagfarnu.

**58. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Roedd copi o Gyhoeddiadau'r Cadeirydd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd am fod yn bresennol mewn dau ddigwyddiad ar ei ran yn ddiweddar.

Ar ran Pwyllgor Cadluoedd Cei Connah a Shotton, diolchodd y Cynghorydd Ian Dunbar i'r Cadeirydd a'i wraig am fod yn bresennol yng Ngwasanaeth Coffa Rhyfel Cei Connah a Shotton a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018. Dywedodd fod tyrfa dda wedi dod i'r digwyddiad, gan gynnwys plant o'r ysgolion lleol a sefydliadau eraill. Diolchodd i'r Cadeirydd hefyd am iddo fynd i Neuadd Ddinesig Cei Connah yn ddiweddarach i gyflwyno placiau a thaflenni i'r plant i gofio'r diwrnod.

Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad o'r digwyddiadau coffa y cafodd ef a'i wraig wahoddiad iddynt, a dywedodd y buont yn deyrngedau teimladwy a phriodol i anrhydeddu'r aberth a wnaed gan gymaint yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Manteisiodd y Cynghorydd Mike Peers ar y cyfle i gyfeirio at arolygiad Estyn yn Ysgol Gynradd Mountain Lane ym Mwcle yn nhymor yr haf. Dywedodd fod y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) wedi ysgrifennu at y Pennaeth a'r staff wedi i Estyn gyhoeddi'r adroddiad, i'w llongyfarch am eu llwyddiant. Dywedodd y Cynghorydd Peers fod y Corff Llywodraethu wedi gofyn iddo, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Cadeirydd y Llywodraethwyr, i fynegi eu diolchgarwch i'r Prif Swyddog am iddi gydnabod yn garedig yr adroddiad gan Estyn, ac am ei chefnogaeth.

**59. DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd dim.

**60. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni dderbyniwyd dim.

**61. CWESTIYNAU**

Ni dderbyniwyd dim.

## 62. RHYBUDD O GYNNIG

Ni dderbyniwyd dim.

## 63. CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2019/20: RHAGOLYGON DIWEDDARIEDIG A CHYNIGION CYLLIDEB CYFNOD 1 A 2

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad ynglŷn â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllideb 2019/20. Gwahoddwyd y Cyngor i gymeradwyo Cam 1 a Cham 2 o gynigion y gyllideb, a rhoi ymateb ffurfiol i Lywodraeth Cymru ynglyn â'r Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol a oedd yn destun ymgynghoriad. Gofynnwyd hefyd i'r Aelodau yn unigol ac ar y cyd i gefnogi'r ymgyrch #CefnogiEinCais dros gyllid tecach i lywodraeth leol ac i Sir y Fflint.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Cam 1 o'r gyllideb yn ymdrin â Chyllid Corfforaethol a Cham 2 â'r Portffolios Gwasanaeth. Byddai Cam 3 yn dilyn, i ymdrin ag atebion cenedlaethol a gosod cyllideb gyffredinol gytbwys.

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad ar y cyd oedd yn trafod y materion allweddol canlynol:

- Rhagolygon y gyllideb yn lleol a sefyllfa ariannol y Cyngor
    - y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sefyllfa'r gyllideb genedlaethol
    - datganiad cyllideb Canghellor y Deyrnas Gyfunol
    - rhagolygon cyllideb 2019/20
    - rhagolygon cyllideb 2019/20 fel y'u diwygiwyd
    - talu'r diffyg cyllid cyn y setliad
    - dull y Strategaeth Ariannol Tymor Canol ar gyfer gosod y gyllideb
    - y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau lleol
    - y sefyllfa sydd ohoni i'r Cyngor
- Cam 1 – Cyllid Corfforaethol
    - Cam 1 – atebion ar gyfer y gyllideb gorfforaethol
- Cam 2 – Portffolios Gwasanaethau
    - Cam 2 - crynodeb o gynigion cynllun busnes ar lefel portffolio
- Sefyllfa'r gyllideb genedlaethol a Cham 3 o osod y gyllideb
    - crynodeb o sefyllfa gyllidebol Cymru
    - Cyllid cenedlaethol yn erbyn Treth y Cyngor
    - Dadansoddi Treth y Cyngor
    - cydbwyso incwm y Grant Cynnal Refeniw a Threth y Cyngor
    - ymateb o sesiynau'r gweithlu
    - #CefnogiEinCais – byrdwn yr ymgyrch
    - #CefnogiEinCais – negeseuon o gefnogaeth
    - #CefnogiEinCais – Treth y Cyngor
    - #CefnogiEinCais – dadl gyhoeddus
    - #EinDydd – 20 Tachwedd 2018
    - camau nesaf a therfynau amser.

Diolchodd y Cynghorydd Aaron Shotton i'r Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Swyddogion am eu gwaith caled ar gyllideb y Cyngor

ar gyfer 2019/20. Dywedodd fod angen cytuno ar Gamau 1 a 2 o’r gyllideb, a’i fod yn gobeithio y byddai’r Aelodau’n cefnogi’n unfrydol y cynigion, a fu drwy’r drefn Trosolwg a Chraffu. Cyfeiriodd at yr arbedion effeithlonrwydd a gynigiwyd yng Nghamau 1 a 2 a fyddai’n cyfrannu at ‘dalu’r diffyg’, a dywedodd fod y cyfnod o lymder wedi gorfodi’r Cyngor i ddefnyddio mwy o’i gronfeydd wrth gefn wrth weithredu ei strategaeth i amddiffyn gwasanaethau. Er bod y gyllideb yn cynnwys cynnydd dangosol o 4.5% yn Nhreth y Cyngor, a gostyngiad arall o £250,000 mewn costau uwch-reolwyr, roedd yno ddiffyg sylweddol ar ôl i’w dalu.

Soniodd y Cynghorydd Shotton am y newid o ran rhoi’r gorau i ddefnyddio cyllid cenedlaethol i gynnal gwasanaethau llywodraeth leol a defnyddio incwm Treth y Cyngor yn ei le, a ph’un a oedd hynny’n bolisi bwriadol ai peidio, dyna oedd y sefyllfa mewn gwirionedd yng Nghymru a Lloegr. Dywedodd fod hyn yn peri cryn bryder, a dywedodd nad oedd yr Awdurdod yn dymuno bod mewn sefyllfa lle’r oedd cynyddu Treth y Cyngor hyd at 15% yn bosibl, ac y byddai’n rhaid inni ymgyrchu yn erbyn hynny gan ofyn am well setliad o ran cyllid cenedlaethol.

Cynigiodd y Cynghorydd Shotton weithredu’r argymhelliad yn yr adroddiad, sef bod y Cyngor yn cymeradwyo Cam 1 a Cham 2 o’r cynigion ar gyfer y gyllideb. Cyfeiriodd hefyd at yr ail argymhelliad yn yr adroddiad, gan sôn am ei falchder yn yr ymgyrch #CefnogiEinCais a lansiwyd ddiwrnod y cyfarfod. Anogwyd cymaint â phosib o bobl i gefnogi’r ymgyrch ar y cyd ag ymgyrch ‘Ein Dydd’ y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Mynnodd nad oedd yr ymgyrch #CefnogiEinCais yn afrealistig gan fod gan Lywodraeth Cymru gyllid heb ei neilltuo y gellid ei drosglwyddo i lywodraeth leol er mwyn lleddfu’r gwasgfeydd ariannol. Soniodd am y trafodaethau cadarnhaol a gafwyd gyda Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a dywedodd y gobeithiai fod y Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru’n cydnabod y dylai llywodraeth leol fod yn gyntaf ar y rhestr am gyllid ychwanegol yn sgil datganiad cyllideb y Canghellor. Pwysleisiodd y Cynghorydd Shotton mor bwysig oedd dal i ymgyrchu ar y cyd er mwyn amddiffyn gwasanaethau a thrigolion Sir y Fflint rhag mwy o doriadau.

Soniodd y Cynghorydd Chris Bithell hefyd am y newid o gyllid cenedlaethol i drethi lleol wrth dalu’r diffyg yr oedd gostyngiadau mewn cyllid gan y llywodraeth wedi’i greu. Cyfeiriodd at y gost ar gyfer yr Heddlu, a’r dybiaeth o safbwynt y llywodraeth genedlaethol y byddai trethdalwyr lleol yn ysgwyddo’r baich am 51% o’r cyllid. Dywedodd y bu’r cyfrifoldeb dros ariannu’r gwasanaethu heddlu a throseddu a llywodraeth leol yn symud i dalwyr Treth y Cyngor ers sawl blwyddyn, a bod llawer yn gweld hynny fel trethu llechwraidd. Roedd hynny’n annheg ac yn annerbyniol yn ei farn ef, ac roedd angen sicrhau fod pobl yn gwybod na fyddai trethi lleol yn medru talu am yr un lefel o wasanaethau â chyllid cenedlaethol. Roedd Treth y Cyngor yn codi, ond darperid llai o wasanaethau gan y Cynghorau.

Cefnogodd y Cynghorydd Mike Peers y datganiad fod y Setliad Dros Dro i Lywodraeth Leol, a oedd yn destun ymgynghoriad, yn gwbl annigonol i ddiwallu’r anghenion. Roedd yn amau fod gan Lywodraeth Cymru lawer iawn o gyllid y gellid ei drosglwyddo i awdurdodau lleol er mwyn lleddfu’r gwasgfeydd ariannol, a chefnogodd yr ymgyrch #CefnogiEinCais a oedd yn gofyn am setliad tecach i lywodraeth leol a Sir y Fflint. Mynegodd bryder am yr anghysonder rhwng

awdurdodau lleol yn y setliad dros dro, gan sôn am “raniad rhwng y Gogledd a’r De” o ran cyllid. Pwysleisiodd fod angen darparu cyllid digonol yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau sylfaenol, a dywedodd na ddylid gofyn i dalwyr Treth y Cyngor roi cymhorthdal i dalu’r diffyg mewn cyllid cenedlaethol fel y cynigiai Llywodraeth Cymru. Dywedodd ei fod yn llwyr gefnogi sylwadau’r Cynghorydd Chris Bithell. Cyfeiriodd at y ‘bwlch’ yn y gyllideb o £15.3 miliwn a diolchodd i bawb a fu’n gweithio’n galed i leihau’r ‘bwlch’ i £6.7 miliwn.

Wrth gloi, soniodd y Cynghorydd Peers fod angen ennyn cefnogaeth Aelodau Cynulliad yn lleol a ledled gogledd Cymru wrth ymgyrchu dros setliad tecach ar gyfer darparu gwasanaethau lleol. Dywedodd nad mater o effeithlonrwydd oedd cynyddu Treth y Cyngor, ond ffordd o gynhyrchu incwm ar draul y cyhoedd, ac nid oedd hynny’n deg nac yn briodol.

Cytunodd y Cynghorydd Patrick Heesom â’r safbwynt nad oedd Treth y Cyngor yn ateb priodol i’r broblem o ddiffyg cyllid gan y llywodraeth. Dywedodd y byddai unrhyw gynnydd mwy na 4% neu 5% yn annerbyniol i’r cyhoedd ac yn cael effaith anghymesur ar y bobl dlotaf, gan danseilio’r egwyddor o gymdeithas deg. Soniodd am y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau lleol, a dywedodd nad oedd yn cytuno â’r datganiad nad oedd fawr o werth dadlau ynghylch gwasanaethau gorfodol yn erbyn rhai dewisol. Cyfeiriodd hefyd at y sylw ynglŷn â thrawsnewid mawr, a holodd a oedd unrhyw werth bellach yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canol gyfredol. Dywedodd hefyd fod angen ailystyried y strategaeth gyfredol gan y teimlai nad oedd yn ymdrin â’r gwasgfeydd presennol na’r rhai oedd ar y gorwel, a’i fod bellach yn anaddas at y diben.

Dywedodd y Cynghorydd Carol Ellis ei bod yn cefnogi’r ymgyrch #CefnogiEinCais ac fe ategodd sylwadau’r Cynghorydd Mike Peers wrth ddweud fod angen i Aelodau Cynulliad roi eu cefnogaeth o blaid yr ymgyrch dros setliad ariannol teg. Gan gyfeirio at yr argymhelliad i godi Treth y Cyngor 4.5%, dywedodd nad oedd hynny’n cynnwys praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned a Chomisiynydd yr heddlu a Throseddu, a fyddai’n golygu cynnydd o 7% o leiaf. Dywedodd fod angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o’r berthynas rhwng arian Treth y Cyngor a chyllid Llywodraeth Cymru.

Soniodd y Cynghorydd Richard Jones am y cynnydd 5.2% (£315 miliwn) yng nghyllid y Gwasanaeth Iechyd eleni, a bod £95 miliwn wedi’i neilltuo ar gyfer codiadau cyflog yng Nghymru. Cyfeiriodd at y symiau a gyflwynwyd o ran y Grant Cynnal Refeniw ac incwm Treth y Cyngor, gan ddweud bod y ffigyrau hynny wedi cynyddu 1% bob blwyddyn. Rhoes enghraifft o effaith y codiadau cyson hynny, a’r effaith ar gyllideb y cyfrif refeniw mewn blynyddoedd i ddod, gan ddweud y gallai bron traean o’r gyllideb ddod o drethi lleol (32% - cynnydd o £23 miliwn).

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y diffyg o £6.7 miliwn yn y gyllideb, gan ddweud fod yr ymgyrch #CefnogiEinCais yn gofyn am £5.6 miliwn (£1.1 miliwn yn llai na’r bwlch). Gofynnodd am eglurhad o’r cyfrifiadau ynglŷn â’r diffyg yn y gyllideb, a chyfrifiadau Treth y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Jones at y Cyfrif Refeniw Tai, gan holi a oedd ffordd o godi costau cyflogau Aelodau o’r cyfrif hwnnw ar gyfer yr amser a dreuliont yn ymdrin â materion tai.

Soniodd y Cynghorydd Jones am y gostyngiad 9% yng nghymorth/cymhorthdal yr Awdurdod i gwmni Hamdden a Llyfrgelloedd Aura, a holodd a ellid gostwng y cymhorthdal eto er mwyn arbed mwy o arian.

Gan gyfeirio at dudalen 73 o'r adroddiad, holodd y Cynghorydd Jones ynglŷn â'r ffigyrau a ddarparwyd ar gyfer Cynllunio a Gorfodi (£0.111 miliwn) a Thai ac Asedau (£0.035 miliwn).

Holodd y Cynghorydd Jones a fedrai hefyd gael yr wybodaeth y gofynnwyd amdano mewn ymateb i'r cwestiynau a gododd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol.

Esboniodd y Prif Weithredwr y darperir dadansoddiad manwl i'r Cynghorydd Jones mewn ymateb i'w gwestiynau ynglŷn â'r Cyfrif Refeniw Tai a materion cludiant. Gan gyfeirio at awgrym y Cynghorydd Jones y dylai'r Awdurdod ystyried gostwng y cymorth i Aura eto, yn ogystal â'r cymorth i Wasanaethau Arlwyo a Glanhau Newydd, rhybuddiodd y Prif Weithredwr rhag gwneud hynny gan y byddai'n cael effaith drom ar gynlluniau busnes y naill gwmni a'r llall, a soniodd am y costau'r oedd y cwmnïau eisoes wedi'u hysgwyddo, gan gynnwys codiadau cyflog. O ran y Cyfrif Refeniw Tai, dywedodd y Prif Weithredwr y câi rhai costau eu codi ar gyfer y gwasanaethau democrataidd, ond y gellid ymchwilio i hyn eto yn fwy manwl. Esboniodd y Prif Weithredwr y gwahaniaeth rhwng y bwlch o £6.7 miliwn yn y gyllideb a'r swm o £5.6 miliwn yr oedd yr ymgyrch #CefnogiEinCais yn gofyn amdano, ac er ei fod yn cydnabod nad oedd hynny'n ddigon i dalu'r diffyg cyn troi at incwm Treth y Cyngor, roedd yn seiliedig ar y swm o gyllid heb ei neilltuo oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol y defnyddid y Cyfrif Refeniw Tai i dalu costau cymorth canolog, gan gynnig enghreifftiau fel adnoddau dynol, cyllid, gwasanaethau cyfreithiol, costau rheoli corfforaethol a chyfraniad Aelodau. Dywedodd y Prif Weithredwr y gwneid hynny ar sail cyfrifiad teg.

Soniodd y Cynghorydd Kevin Hughes fod angen dal ati ar y cyd i gefnogi'r ymgyrch #CefnogiEinCais hyd oni fyddai awdurdodau lleol yn cael bargen deg gan Lywodraeth Cymru a'r llywodraeth yn Llundain.

Rhoes y Cynghorydd Glyn Banks longyfarchiadau i'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol am yr adroddiad a'r cyflwyniad a roddwyd. Dywedodd na fedrai gefnogi cynyddu Treth y Cyngor hyd at 15% yn Sir y Fflint tra bod Llywodraeth Cymru'n meddu ar symiau mawr o arian y gellid eu trosglwyddo i lywodraeth leol.

Yn ôl y Cynghorydd Hilary McGuill roedd angen codi gwell ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y gallai'r cyhoedd gefnogi'r ymgyrch #CefnogiEinCais, a dywedodd nad oedd yn hawdd cwblhau'r ddeiseb ar-lein. Dywedodd fod y trigolion yn dymuno gwario'r arian a drosglwyddwyd gan y llywodraeth yn Llundain i Lywodraeth Cymru ar wasanaethau lleol yn ddiymdroi.

Holodd y Cynghorydd David Williams a gynhelid digwyddiadau i ymgynghori â chymunedau lleol, gan ddweud y bu digwyddiadau felly'n fuddiol yn

y gorffennol o ran ennyn diddordeb y cyhoedd. Esboniodd y Prif Weithredwr mai siomedig oedd nifer y bobl a ddaeth i ddigwyddiadau blaenorol, ac awgrymodd mai'r peth gorau fyddai aros i weld sut oedd y sefyllfa'n datblygu o ran yr ymgyrch #CefnogiEinCais, y gyllideb genedlaethol a Cham 3 o osod y gyllideb, cyn mynd ati i gynnal digwyddiadau cyhoeddus. Serch hynny, roedd pob dewis ar gael i'w ystyried.

Rhoes y Cynghorydd Colin Legg longyfarchiadau i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet, y Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'i dîm am eu gwaith caled a medrus wrth gwtogi ar y costau. Mynegodd bryder, fodd bynnag, y byddai gostwng yr adnoddau staff yn golygu na fedrai'r Awdurdod gynnal gwasanaethau o'r ansawdd y dymunai ei gynnig i drigolion Sir y Fflint. Roedd yn pryderu ynglŷn â llesiant staff, a soniodd am y straen yn deillio o dwf mewn baich gwaith oherwydd llai o staff, gan ddweud y gallai hynny wneud gweithwyr yn sâl.

Wrth gloi, gan gydnabod sylwadau'r Cynghorwyr Mike Peers a Patrick Heesom, dywedodd na fu modd dod o hyd i unrhyw doriadau neu drawsnewidiadau yng nghyllideb y flwyddyn nesaf y tu hwnt i'r hyn a wnaed. Dywedodd nad oedd unrhyw ddewis ond cynyddu Treth y Cyngor er mwyn talu'r diffyg y flwyddyn nesaf, a phwysleisiodd y bu'r Awdurdod wrthi'n ddiwyd yn cwtogi ar gostau er mwyn amddiffyn trigolion Sir y Fflint rhag mwy o gynnydd yn Nhreth y Cyngor. Soniodd hefyd fod angen i'r cyhoedd ddeall pa gostau eraill oedd yn rhan o Dreth y Cyngor, gan grybwyll yr Awdurdod Tân ac Achub, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a phraeseptau'r Cynghorau Tref a Chymuned. Pwysleisiodd mai mater cenedlaethol oedd ariannu llywodraeth leol, ac nid rhywbeth oedd yn effeithio ar Sir y Fflint yn unig.

Gan gyfeirio at sylwadau'r Cynghorydd Hilary McGuill ynglŷn â'r ymgyrch #CefnogiEinCais, dywedodd y Prif Weithredwr fod diddordeb ar gyfryngau cymdeithasol yn tyfu, a bod cynllun ar waith ar gyfer lobïo â rheolaeth a heb reolaeth.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan bob Aelod gyfrifoldeb i ofyn i Aelodau Cynulliad roi eu cefnogaeth i'r ymgyrch #CefnogiEinCais a chodi ymwybyddiaeth ymysg eu trigolion lleol, gan esbonio mor bwysig oedd iddynt gyfleu eu cefnogaeth i Lywodraeth Cymru.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau y byddai ymateb ffurfiol yr Awdurdod i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r Setliad Dros Dro i Lywodraeth Leol yn crybwyll yr ymgyrch #CefnogiEinCais a'r themâu allweddol a drafodwyd yn y cyfarfod heddiw, ac y byddai'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn ei lofnodi.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod y Cynghorydd Shotton wedi cynnig cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Eiliwyd y cynnig hwnnw ac wedi pleidlais, cymeradwywyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo cynigion y gyllideb Cam 1 a Cham 2; a

(b) Chefnogi’r ymgyrch arfaethedig a bod y Cyngor yn rhoi ymateb ffurfiol i Lywodraeth Cymru ynglyn â’r Setliad Dros Dro ar gyfer Llywodraeth Leol.

## 64. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2019/20 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad er mwyn galluogi’r Cyngor i ystyried Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2019/20. Rhoes wybodaeth yn gefndir i’r adroddiad gan esbonio fod yr atodiad yn nodi penderfyniadau’r Panel ar gyfer 2019/20.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y materion pennaf i’w hystyried fel y nodwyd yn yr adroddiad, gan ddweud “er mwyn osgoi erydiad pellach mewn perthynas ag enillion cyfartalog” fod y Panel wedi penderfynu codi cyflog sylfaenol pob Cynghorydd i £13,868 (cynnydd o 1.97%) a oedd yn gyfwerth â £268. Roedd y Panel hefyd wedi penderfynu “[nad oedd] cyflogau arweinwyr ac aelodau o’r weithrediaeth wedi cynyddu ers sawl blwyddyn (ac eithrio'r cynnydd i'r elfen sylfaenol)” ac o’r farn “bod cyfrifoldeb gweithredol sylweddol ar ysgwyddau deiliaid y swyddi hyn, ac nad ydynt wedi'u talu'n dda iawn o gymharu â nifer o swyddogion sector cyhoeddus eraill”. Roedd y Panel yn argymell codiad o £800 i bob un (gan gynnwys y codiad o £268 yn y cyflog sylfaenol).

Dywedodd y Prif Swyddog fod y Panel hefyd wedi cynnig rhan newidiadau yng nghyfraddau cyflogau penaethiaid dinesig a dirprwyon (sef yr hyn a dalwyd i Gadeirydd y Cyngor a’r Is-gadeirydd). Talwyd y rhain ar gyfradd symudol yn y gorffennol, ond roedd y Panel wedi cael gwared â’r elfen o ‘ddewis’ a phenderfynu y dylai pob pennaeth dinesig bellach gael cyflog dinesig o £22,568 (yr un fath â chadeiryddion Pwyllgorau a £500 yn fwy na’r cyflog presennol, ar ben y cynnydd o £268 yn y cyflog sylfaenol). Byddai’n rhaid i’r dirprwy bennaeth dinesig gael cyflog Band 5 o £17,568 (cynnydd o £1,000). Serch hynny, gallai pob Cyngor ddewis peidio â rhoi cyflog dinesig ar gyfer y naill swydd na’r llall.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog ar benderfyniadau 6 a 7 yn adroddiad drafft y Panel, a oedd a wnelont â darparu cymorth digonol, drwy Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd pob awdurdod, fel y gallai aelodau etholedig gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol. Dywedodd fod hynny’n cynnwys darparu ffôn, cyfrif e-bost a mynediad i’r rhyngrwyd ar gyfer gwybodaeth briodol, heb i’r aelodau unigol orfod talu amdanynt. Soniodd y Prif Swyddog am egwyddor y Panel na ddylai ymgeisio am swydd etholedig fod yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol yr unigolyn, ac na ddylai Aelodau fod ‘ar eu colled’ o ganlyniad i’r costau angenrheidiol ar gyfer cyflawni dyletswyddau cyhoeddus.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at benderfyniadau 1 a 2 yn adroddiad drafft y Panel, a’r codiadau a gynigiwyd yn y cyflog sylfaenol a chyflogau uwch ar gyfer aelodau etholedig. Soniodd am y sefyllfa ariannol genedlaethol a’r cyfnod o lymder oedd yn dal i fynd yn ei flaen, gan ddweud nad oedd o’r farn y gellid cyfiawnhau’r codiadau a gynigiwyd, a’u bod yn amhriodol ar hyn o bryd. Cynigiodd y Cynghorydd Shotton fod y Cyngor yn ymateb i’r Panel gan wrthod y cynigion i godi’r cyflog sylfaenol a’r cyflogau uwch ar gyfer aelodau etholedig a nodwyd ym mhenderfyniadau 1 a 2 yn adroddiad drafft y Panel.

Siaradodd y Cynghorydd Patrick Heesom o blaid cynnig y Cynghorydd Shotton, gan ddweud fod angen manteisio ar bob cyfle i sicrhau arbedion. Soniodd am nifer Aelodau'r Cabinet, gan holi a ellid adolygu'r nifer er mwyn arbed mwy o gostau cyflogau yn y dyfodol. Esboniodd y Prif Swyddog na chaniateid mwy na deg o seddi cabinet mewn unrhyw awdurdod, a bod gan Sir y Fflint wyth ohonynt ar hyn o bryd. Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau eraill gan y Cynghorydd Heesom, eglurodd y Prif Swyddog y costau ar gyfer cyflogau uwch.

Dywedodd y Prif Swyddog fod y Cynghorydd Aaron Shotton wedi cynnig, ar sail yr amgylchiadau ariannol presennol, na ellid cyfiawnhau cynyddu'r cyflog sylfaenol ac uwch gyflogau aelodau etholedig yn 2019/20 fel y cynigiwyd; a bod y Prif Swyddog (Llywodraethu) yn ymateb i'r Panel ar ran y Cyngor, i'w hysbysu o'r penderfyniad yn y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig hwnnw, ac fe'i cymeradwywyd yn dilyn pleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Cyngor o'r farn na ellid cyfiawnhau cynyddu'r cyflog sylfaenol a chyflogau uwch ar gyfer aelodau etholedig yn 2019/20, fel y cynigiai'r Panel, gan ystyried y sefyllfa ariannol oedd ohoni; a

(b) Bod y Prif Swyddog (Llywodraethu) yn ymateb i'r Panel ar ran y Cyngor, i'w hysbysu o'r penderfyniad yn y cyfarfod..

## 65. AILBENODI AELOD ANNIBYNNOL O'R BWYLLGOR SAFONAU.

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar Benodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am ail dymor. Rhoes wybodaeth yn gefndir i'r adroddiad, gan ddweud y byddai cyfnod Mr Ken Molyneux fel aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben fis Rhagfyr 2018. Roedd Mr. Molyneux yn gymwys i'w ail-benodi am dymor arall ac wedi dweud y byddai'n fodlon ymgymryd â'r swydd pe câi ei benodi eto. Dywedodd y Prif Swyddog pe byddai'r Aelodau'n penderfynu peidio ag ail-benodi Mr. Molyneux, yna byddai'n rhaid i'r Cyngor gynnull Panel Penodiadau a hysbysebu'r swydd yn y wasg leol am bris.

Cynigiwyd cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad, sef ail-benodi Mr. Ken Molyneux i'r Pwyllgor Safonau am bedair blynedd. Eiliwyd y cynnig hwnnw ac fe'i cymeradwywyd wedi pleidlais.

**PENDERFYNWYD:**

Ail-benodi Mr. Ken Molyneux i'r Pwyllgor Safonau am bedair blynedd.

## 66. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 3.45 pm)

.................................................
**Cadeirydd**